# CYNLLUN GWERS AR GYFER YMCHWILWYR LLYGREDD

ASTHMA+ LUNG UK

**Dyniaethau**

## Disgrifiadau ar gyfer dysgu

- Rwy'n gallu disgrifio sut y gall pobl a'r byd naturiol effeithio ar ei gilydd.
- Rwy'n gallu cydnabod bod fy ngweithredoedd i a gweithredoedd eraill yn effeithio ar gymunedau a'r amgylchedd.

## Amcanion dysgu

- Deall rhai achosion llygredd aer a ffyrdd y gallwn ni effeithio ar newid.
- Deall ein rôl wrth gyfrannu at ansawdd aer da.

## Adnoddau sydd eu hangen

- Cynllun Gwers Ymchwilwyr Llygredd
- Ymchwilwyr Llygredd Cyflwyniad Gwers
- Map Ysgol Gynradd Sunnyfield
- Cardiau Gwybodaeth Ysgol
- Log Asesu Llygredd
- Geiriau allweddol, os oes angen

## Datblygu sgiliau

- Dadlau a rhannu barn
- Gwrando ar feddyliau a barn pobl eraill a'u parchu
- Cyflwyno syniadau'n glir i gyfoedion ac oedolion

| Geirfa allweddol | Dysgu blaenorol |
|---|---|
| aer, ocsigen, anadl, anadlu, segura, ysgyfaint, llygredd, mygdarth, mwg, plaladdwyr, cemegau, Daear, naturiol, amgylchedd, amddiffyn, bywyd, cyflwr yr ysgyfaint, asthma, salwch, dinesydd byd-eang, cyfrifoldeb, coed, planhigion, ffatrïoedd, cerbydau, plastig, ailgylchu, llygredd | Efallai y byddai'n ddefnyddiol bod wedi dysgu ychydig am y corff dynol ac i ddisgyblion ddeall ein bod ni'n defnyddio ein hysgyfaint i anadlu. Gallech ddangos i ddisgyblion ble mae ein hysgyfaint wedi'u lleoli yn ein cyrff, efallai ar boster neu gyda fideo syml am yr ysgyfaint. |

| Amser | Gweithgaredd Athrawon | Addasiadau |
|---|---|---|
| 10 munud | Gan ddefnyddio'r **Cyflwyniad Gwers**, gofynnwch i blant beth maen nhw'n ei wybod eisoes am lygredd aer. Ydyn nhw’n gallu nodi rhai o brif achosion llygredd aer? Trafodwch beth yw llygredd aer a beth sy'n cyfrannu ato. | Esboniwch eirfa yn y cyflwyniad yn ôl yr angen. Ewch ati i wahodd ac ateb cwestiynau drwy'r cyfan i sicrhau dealltwriaeth y disgyblion. |
| 10 munud | Cyflwynwch Ysgol Gynradd ffuglennol Sunnyfield ac esboniwch i'r plant y byddant yn ymchwilwyr llygredd heddiw. Gofynnwch i'r plant a allant feddwl beth allai fod yn achosi llygredd aer o amgylch ysgolion. | Anogwch y plant i ddefnyddio'r lluniau ar y cyflwyniad i gynorthwyo eu meddwl. |
| 15 munud | Rhannwch y dosbarth yn 8 grŵp, un ar gyfer pob ardal o'r ysgol. Rhowch **Gardiau Gwybodaeth Ysgol** a **Chofnod Asesu Llygredd** i bob grŵp. Caniatewch amser i bob grŵp ddadansoddi'r ddelwedd a darllen y senario. Esboniwch y dylent gofnodi eu canfyddiadau wrth baratoi i adrodd eu hargymhellion ar sut i wella ansawdd yr aer yn ôl i'r dosbarth a’u hargymhellion ar sut i wella ansawdd yr aer o amgylch eu hardal. | Gallech ddefnyddio grwpio aml-allu i gefnogi dysgwyr unigol. |
| 15 munud | Caniatwch i bob grŵp gyflwyno eu canfyddiadau a'u hargymhellion ar gyfer gwella ansawdd aer yn eu hardal. Trafodwch gyda'r dosbarth yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu heddiw a'r hyn y gallant ei wneud yn eu bywydau bob dydd i gyfrannu at well ansawdd aer. | Atgoffwch blant o'r senario ar gyfer eu hardal i'w helpu i feddwl am yr hyn y gellid ei wella. |
| 5 munud | Rhannwch y wybodaeth am Asthma + Lung UK a gofynnwch i'r plant rannu un peth y byddant yn ei wneud o ganlyniad i’rwers hon i'n helpu i anadlu aer glanach. | Rhowch rai brawddegau i'r plant i gynorthwyo eu meddwl. "I'n helpu i anadlu aer glanach, byddaf yn...." |

## Myfyrdodau gwers / camau nesaf / nodiadau athrawon

## Cyfleoedd asesu

- Ydy disgyblion yn gallu nodi rhai achosion llygredd aer?
- Ydy disgyblion yn gallu disgrifio pam mae llygredd aer yn niweidiol i ni?
- Ydy disgyblion yn glalu nodi camau y gallwn ni eu cymryd i wella ansawdd aer?

## Awgrymiadau ar gyfer dysgu yn y dyfodol

- Gallai disgyblion ysgrifennu llythyr at yr AS lleol gyda'u hargymhellion i wella ansawdd yr aer a sut y gall y llywodraeth chwarae eu rhan wrth wella ansawdd aer mewn cymunedau.

## Cyfleoedd dysgu yn y cartref

- Gallai disgyblion gynnal yr un arbrawf gartref neu o amgylch eu hardal leol i ddarparu argymhellion i wella ansawdd aer.
- Gallai disgyblion gyflwyno eu canfyddiadau i rieni gartref fel bod eu rhieni yn gwybod beth i'w wneud i helpu i wella ansawdd aer.